



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

Ofwat

# Penodi Cyfarwyddwyr Anweithredol i Fwrdd Ofwat

Rhif Cyf 11/19

## Pecyn briffio i ymgeiswyr

Canol Dydd, Dydd Gwener 21 Chwefror 2020



---

# Cynnwys

---

<b>Cynnwys</b> .....	<b>1</b>
<b>Rhagymadrodd gan Jonson Cox</b> .....	<b>4</b>
<b>Datganiad Cenhadaeth Defra</b> .....	<b>5</b>
Cyfle Cyfartal .....	5
Amrywiaeth .....	5
Anabledd .....	5
<b>Ynglŷn ag Ofwat</b> .....	<b>6</b>
Cefndir .....	6
<b>Gwerthoedd Ofwat</b> .....	<b>10</b>
<b>Disgwyliadau rôl</b> .....	<b>11</b>
<b>Meini Prawf Hanfodol</b> .....	<b>12</b>
<b>Ymrwymiad amser a thymor y swydd</b> .....	<b>14</b>
<b>Cydnabyddiaeth ariannol a threuliau</b> .....	<b>15</b>
<b>Y Broses Benodi</b> .....	<b>16</b>
Ymddygiad ac Uniondeb .....	16
Treuliau cyfweiliad .....	17
<b>Sut i ymgeisio a chyflwyno eich cais</b> .....	<b>18</b>
Cysylltu .....	19
<b>Amserlen Recriwtio</b> .....	<b>20</b>
<b>Meini prawf anghymhwysra</b> .....	<b>21</b>
<b>Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy</b> .....	<b>22</b>
<b>Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus</b> .....	<b>23</b>
<b>Diogelu data</b> .....	<b>24</b>

---

**Atodiad I: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus ..... 25**

---

Anhunanoldeb .....	25
Uniondeb .....	25
Gwrthrychedd .....	25
Atebolrwydd.....	25
Bod yn agored .....	25
Gonestrwydd .....	25
Arweinyddiaeth .....	25

**Atodiad II Gwrthdaro buddiannau ..... 26**

Beth yw gwrthdaro buddiannau? .....	26
Mae'n siŵr nad yw gwrthdaro ymddangosol yn broblem, cyn belled fy mod yn gweithredu'n ddiduedd bob amser? .....	26
Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n credu bod gen i fuddiannau sy'n gwrthdaro? .....	26
Os ydw i'n datgan gwrthdaro buddiannau, a yw hynny'n golygu na fyddaf yn cael fy ystyried ar gyfer penodiad? .....	27
Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn datgan gwrthdaro y gwn amdano y bydd Ofwat yn ei ddarganfod wedi fy mhenodiad? .....	27
Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n sylweddoli bod gwrthdaro posibl yn bodoli? .....	27
Beth sy'n digwydd os bydd gwrthdaro buddiannau yn digwydd wedi i benodiad gael ei wneud? .....	27
Meysydd lle gall gwrthdaro ddigwydd .....	28

**Atodiad III – Aelodaeth bresennol y Bwrdd ..... 29**



---

# Rhagymadrodd gan Jonson Cox

---

## Annwyl Ymgeisydd

### Nid yw dŵr yn bwnc sych.

Mae gwaith cwmnïau dŵr yn cefnogi pob agwedd ar fywyd modern ar gyfer pawb, bob dydd. Mae gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff diogel a dibynadwy yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles y cyhoedd. Fel cymdeithas, rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr ddarparu gwasanaethau cydnerth a fforddiadwy i bawb ac i gynllunio a buddsoddi'n effeithiol ar gyfer yr hirdymor.



Mae angen i ni ofalu am ein hamgylchedd er mwyn sicrhau mynediad cynaliadwy at ddŵr fel y gallwn ni a chenedlaethau'r dyfodol fwynhau'r natur sydd o'n cwmpas. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr gynnal a gwella iechyd ein hafonydd, llynnoedd, dyfroedd arfordirol ac ecosystemau wrth iddynt dynnu a thrin dŵr a rhyddhau gwastraff sydd wedi'i drin yn ôl i'r amgylchedd.

Ofwat sy'n rheoleiddio'r diwydiant dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Mae ganddo gyfrifoldeb unigryw a breintiedig - i ddal cwmnïau dŵr i gyfrif a gwella eu perfformiad ar gyfer defnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol. Mae Ofwat hefyd yn goruchwyllo'r marchnadoedd sy'n bodoli yn y sector dŵr er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio ar gyfer defnyddwyr.

Nod Ofwat yw bod yn flaenllaw mewn system reoleiddio sy'n diogelu buddiannau defnyddwyr presennol a rhai'r dyfodol, yn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu swyddogaethau'n gywir ac y gall cwmnïau dŵr effeithlon ariannu eu busnesau. Mae angen i Ofwat hefyd sicrhau cydnerthedd hirdymor, yn cynnwys drwy reolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gofyn i Ofwat annog cwmnïau i chwilio am atebion sy'n rhoi manteision ehangach i gymdeithas a'r amgylchedd wrth iddynt gyflawni eu busnes. Rhaid i Ofwat hefyd sicrhau bod dŵr yn parhau'n fforddiadwy a bod anghenion defnyddwyr bregus yn cael eu diwallu.

Bydd ein haelodau Bwrdd sy'n Gyfarwyddwr Anweithredol a Gweithredol yn dod â gwir angerdd i'w rôl. Rydym angen, ac rydym yn elwa gan, ystod o sgiliau, profiad a chefnidiroedd o fewn y Bwrdd yn ei gyfarwydd. Rydym yn chwilio am Gyfarwyddwyr Anweithredol a fydd yn rhoi her, cefnogaeth a barn dda i'r penderfyniadau a wynebir gan y Bwrdd, ac a fydd yn ategu'r gwaith tîm cryf sydd ar ein Bwrdd.

**Jonson Cox CBE**  
**Cadeirydd, Bwrdd Ofwat**

---

# Datganiad Cenhadaeth Defra

---

Mae Defra am i Brydain fod yn lle gwych i fyw. Mae ein gwaith yn chwarae rhan hollbwysig yn llesiant pawb yn y wlad drwy greu amgylcheddau iach, diwydiant bwyd a ffermio sy'n arwain y byd, economi wledig ffyniannus a gwell diogelwch yn erbyn llifogydd a chlefydau anifeiliaid a phlanhigion.

Bydd penodi pobl o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd sydd â'r sgiliau, gwybodaeth a phrofiad perthnasol i fyrddau ein cyrff cyhoeddus yn ein cynorthwyo i sicrhau bod ein gwaith yn fwy effeithiol, cydnerth ac atebol.

## Cyfle Cyfartal

Mae gan Lywodraeth y DU bolisi cyfle cyfartal. Ein nod yw hyrwyddo polisiau cyfle cyfartal fel na fydd unrhyw un yn dioddef gwahaniaethu annheg naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, neu aflonyddu, ar sail megis hil, lliw, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, statws priodasol, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, cred grefyddol neu oedran.

## Amrywiaeth

Rydym yn croesawu'n gadarnhaol ymgeiswyr o bob cefndir. Gwneir pob penodiad cyhoeddus ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored fel y rheoleiddir gan Swyddfa'r Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

## Anabledd

Rydym yn sicrhau cyfweiliad i unrhyw un sydd ag anabledd y bydd ei gais ef neu hi yn bodloni'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Pan ddywedwn 'meini prawf gofynnol' yr hyn a olygwn yw bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais eich bod ar y cyfan yn bodloni'r lefel cymhwysedd sydd ei hangen ar gyfer pob maen prawf, yn ogystal â bodloni unrhyw rai o'r cymwysterau, sgiliau neu brofiad a ddiffinnir yn hanfodol. Mae Swyddfa'r Cabinet wedi ymrwmo i gyflogaeth a datblygiad gyrfya pobl anabl. Er mwyn dangos hyn rydym yn defnyddio'r Symbol Anabledd a ddyfarnwyd gan Ganolfan Byd Gwaith.

---

# Ynglŷn ag Ofwat

---

## Cefndir

Yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat) yw rheoleiddiwr economaidd annibynnol y sector dŵr a dŵr gwastraff yng Nghymru a Lloegr. Rôl Ofwat yw:

- dal y diwydiant dŵr a dŵr gwastraff i gyfrif ac wrth wneud hynny diogelu buddiannau defnyddwyr, yn cynnwys gwneud yn siŵr bod marchnadoedd yn gweithio er budd defnyddwyr;
- sicrhau bod cwmnïau effeithlon yn gallu ariannu'r gwaith o gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol;
- hyrwyddo cydnerthedd hirdymor cyflenwad dŵr a systemau dŵr gwastraff;
- cyfrannu at ystod eang o nodau polisi, yn cynnwys datblygu cynaliadwy.


Fel rheoleiddiwr economaidd annibynnol, mae Ofwat yn adran llywodraeth anweinidogol sy'n uniongyrchol atebol i'r Senedd. Yn San Steffan noddir Ofwat gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ac yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru.

Gwneir penodiadau anweithredol y Bwrdd gan Ysgrifennydd Gwladol Defra mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Sefydlwyd Ofwat ym 1989 ac mae'n cyflogi tua 240 o bobl yn Birmingham a Llundain. Mae gan y staff ystod eang o gefndiroedd proffesiynol yn cynnwys economyddion, cyfrifyddion, cyfreithwyr, peirianwyr, gwyddonwyr ac arbenigwyr cefnogi gwasanaeth.

Mae Ofwat wedi newid llawer dros y saith mlynedd ddiwethaf o dan fwrdd sydd gan fwyaf yn newydd ac, ers mis Ionawr 2018, Prif Weithredwr newydd, Rachel Fletcher. Mae Ofwat hefyd wedi sicrhau newid sylweddol yn y sector y mae'n ei reoleiddio. Mae gan y Bwrdd bedwar cyfarwyddwr gweithredol gan gynnwys y Prif Weithredwr, chwe Cyfarwyddwr Anweithredol (sydd gyda'i gilydd yn cwmpasu cefndiroedd arweinyddiaeth busnes, defnyddwyr, gwasanaeth cyhoeddus, marchnadoedd cyfalaf ac economaidd) a Chadeirydd, Jonson Cox.

Rhan allweddol o waith Ofwat yw adolygu cynlluniau busnes cwmnïau dŵr a gosod lwfansau a gofynion ar gyfer prisiau a darpariaeth gwasanaeth bob 5 mlynedd. Yn adolygiad prisiau 2015 rhoddwyd dull newydd radical ar waith gyda llwybr cyflym ar gyfer cynlluniau eithriadol, gofynion am ragor o ymgysylltu â chwsmeriaid, a chanolbwyntio'n gryf ar gwmnïau'n cyrraedd ffiniau newydd mewn gweithrediadau a gwasanaeth i gwsmeriaid. Ar gyfer adolygiad prisiau 2019 a gwblhawyd yn ddiweddar, sy'n cwmpasu'r cyfnod 2020-2025, canolbwyntiodd Ofwat ar bedair thema allweddol.



**PR19**

Gwasanaeth cwsmeriaid gwych  
Biliau fforddiadwy i bawb  
Ffyrdd o weithio newydd  
ac arloesol

Cydnherthedd hirdymor yn gyfan

Ofwat

O ran cydnherthedd, mae Ofwat yn dal cwmnïau i gyfrif am gydnerthedd eu gwasanaeth i gwsmeriaid ac am yr asedau sy'n cefnogi hyn. Wrth sôn am gydnerthedd, golyga Ofwat 'gydnherthedd yn ei gyfanrwydd', h.y. bod gan gwmnïau dŵr y wybodaeth, systemau, prosesau, trefn lywodraethu, galluoedd a chyllid cywir er mwyn gwneud penderfyniadau am eu gweithrediadau, gwaith cynnal a chadw a buddsoddiad yn y tymor byr a'r hirdymor. Mae'n glir bod mwy i rai cwmnïau ei wneud yn unigol ac ar y cyd er mwyn lleihau'r tarfu ar gyflenwad, yn enwedig o ystyried newid hinsawdd, ac i roi cefnogaeth i gwsmeriaid - yn arbennig cwsmeriaid bregus - pan fo problemau'n codi.

Yn ddiweddar, yn ychwanegol at lywio drwy'r adolygiad prisiau, mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd Ofwat wedi chwarae rhan bwysig mewn dod ag ehangder profiad sylweddol i ystod lawn o weithgareddau'r Bwrdd:


- mynd i'r afael â methiannau mewn darpariaeth gwasanaeth, er enghraifft drwy gamau gorfodi Ofwat yn erbyn Thames Water a Southern Water;
- herio parodrydd y sector i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, yn cynnwys ymateb y sector i'r "Beast from the East" ar ddiwedd mis Chwefror 2018;
- monitro datblygiad y farchnad adwerthu busnes ar gyfer gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff a agorodd ym mis Ebrill 2017;
- creu tîm traws reoleiddiol o'r enw 'RAPID' (Regulators' Alliance for Progressing Infrastructure Development) gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed er mwyn hwyluso prosiectau seilwaith adnoddau dŵr rhanbarthol a chenedlaethol ar raddfa fawr (fe fydd cydweithio agos gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru);



- diweddarau ei ddull blaengar ar gyfer arweinyddiaeth, tryloywder a threfn lywodraethu y Bwrdd drwy gyflwyno casgliad newydd o egwyddorion gydag amcanion diwygiedig wedi'u tanategu am y tro cyntaf gan ymrwymïadau trwydded. Daeth y rhain i rym ar 1 Awst 2019;
- safoni ei ddull ar gyfer amodau clustnodi cwmnïau dŵr;
- goruchwyllo adeiladu a chyflawni prosiect Twannel Thames Tideway.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae Ofwat newydd adfywio ei strategaeth drwy gyfeirio at y blaenoriaethau ac amcanion strategol a osodwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Defra a Llywodraeth Cymru, gan roi ystyriaeth i'r offer y dylai eu defnyddio i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r sector a'r math o reoleiddiwr y mae angen iddo fod o 2020 ymlaen. Mae wedi bod yn gweithio gyda Llywodraethau, rheoleiddwyr, cyrff defnyddwyr a'r cwmnïau dŵr i bennu gweledigaeth a rennir ar gyfer y sector dŵr.

### Nodau strategol Ofwat



Mae'r agenda ar gyfer y dyfodol yn peri heriau sylweddol iawn yn fasnachol, amgylcheddol ac o ran cwsmeriaid ar ffurf poblogaeth sy'n tyfu, galw cynyddol ar adnoddau dŵr, gyda'r defnydd y pen ymhlith yr uchaf yn Ewrop, a phwysau ar yr amgylchedd naturiol. Mae gan gwsmeriaid ddisgwyliadau mwy a mwy soffistigedig ac mae'r sector ei hun yn wynebu her sylweddol i'w ddilysrwydd. Yn erbyn y cefndir hwn mae angen i'r sector ddarparu gwasanaethau cynaliadwy nawr ac yn yr hirdymor. Rhaid i reoleiddio economaidd chwarae ei ran i gyflawni hyn. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae Ofwat yn parhau i ystyried sut y mae angen iddo leoli ei hun fel rheoleiddiwr sy'n gallu chwarae ei ran i gynnal ymddiriedaeth a hyder yn y sector dŵr.

---

Yn ychwanegol at y gofyniad i weithredu yn unol â'r blaenoriaethau ac amcanion strategol y cyfeiriwyd atynt uchod, mae Ofwat hefyd yn gweithio o fewn y cyd-destun polisi ehangach a osodir gan Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r polisiau hyn ac adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth a rhai sy'n mynd rhagddynt yn barhaus yn berthnasol i strategaeth newydd Ofwat. Ochr yn ochr â'r wybodaeth a ddarperir isod, mae strategaeth Ofwat yn ystyried sut y gall ei reoleiddiad gyfrannu at gyflawniad polisiau a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r sector, megis y rheini a adlewyrchir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y dolenni canlynol:

- [Deddf y Diwydiant Dŵr 1991](#)
- [Deddf Dŵr 2014:](#)
- [Amser i weithredu, gyda'n gilydd: Strategaeth Ofwat](#)
- [Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ofwat:](#)
- [Gwefan Ofwat](#)
- [Gwefan Defra](#)
- [Gwefan Llywodraeth Cymru](#)

Gall yr adroddiadau canlynol hefyd fod yn ddefnyddiol.







- [‘Cynllun yr Amgylchedd 25 Mlynedd’](#) Llywodraeth y DU;
- [‘Strategaeth Ddŵr i Gymru’](#) Llywodraeth Cymru;
- ‘Ffyniant i Bawb strategaeth ar gyfer twf cynaliadwy’ Llywodraeth Cymru’  
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2017-10/prosperity-for-all-the-national-strategy.pdf>
- Ymgynghoriad gan Drysorlys EM a BEIS [‘Encouraging innovation in regulated utilities’](#);
- [‘Asesiad Seilwaith Cenedlaethol’](#) y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NIC)
- Adroddiad NIC, [‘Strategic Investment and Public Confidence’](#);
- Adroddiad y Swyddfa Archwilio Gwladol [‘Regulating to Protect Consumers’](#);
- Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus [‘Consumer Protection’](#);
- Adroddiad Pwyllgor EFRA [‘Regulation of the Water Industry’](#);
- [‘Strategaeth Ddiwydiannol’](#) Llywodraeth y DU;
- Y Papur Gwyrdd [‘Moderneiddio Marchnadoedd Defnyddwyr’](#).

# Gwerthoedd Ofwat

Mae llawer o waith Ofwat wedi'i danategu gan ei chwe gwerth 'SAILOR' a ddangosir isod. Treulir llawer o amser wrth i gydweithwyr newydd ymuno â'r sefydliad cyfan er mwyn helpu gydag ymsefydlu i ffyrdd o weithio Ofwat. Gall aelodau Bwrdd rymgweithio gydag ystod eang o gydweithwyr Ofwat, ac mae nifer o newydd ddyfodiad i dîm Ofwat wedi sôn am y cyfle sydd ganddynt i rymgweithio gyda'r Bwrdd.

## Ni yw Ofwat

Ein huchelgais yw gweithredu yn unol â'n gwerthoedd ym mhopeth a wnawn

<b>S</b>	<b>A</b>	<b>I</b>	<b>L</b>	<b>O</b>	<b>R</b>
<b>Cefnogi</b>	<b>Uchelgais</b>	<b>Uniondeb</b>	<b>Dysgu</b>	<b>Perch-nogaeth</b>	<b>Parch</b>
Rydym yn cydweithio, rydym yn cefnogi ein gilydd ac wedi ymrwmo i lesiant ein gilydd	Rydym yn anelu'n uchel er budd gorau cwsmeriaid, yr amgylchedd a chymdeithas	Rydym yn gweithredu ac yn siarad yn onest, ac mae gennym yr hyder i herio a chael ein herio Rydym yn cael sgysiau anodd pan fo angen a byddwn yn gwneud yr hyn a ddywedwn y gwnawn	Rydym yn mwynhau dysgu am syniadau newydd a gwahanol ffyrdd o wneud pethau ac rydym yn helpu ein gilydd i ddatblygu a thyfu	Rydym yn cymryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd ein hunain ac yn poeni am ein heffaith ar bobl eraill	Rydym yn parchu pobl am pwy ydynt, a'r syniadau a'r safbwyntiau sydd ganddynt
					

---

# Disgwyliadau rôl

---

Arweinir Ofwat gan Fwrdd o gyfarwyddwyr sy'n cynnwys y Cadeirydd, hyd at chwe Cyfarwyddwr Anweithredol a phedwar Cyfarwyddwr Gweithredol, yn cynnwys y Prif Weithredwr.

Gellir gweld manylion aelodau Bwrdd Ofwat ar wefan Ofwat yn Atodiad III ac isod:

- <https://www.ofwat.gov.uk/about-us/who-we-are/>
- [http://www.ofwat.gov.uk/aboutofwat/structure/organisation/prs\\_web130705biographies](http://www.ofwat.gov.uk/aboutofwat/structure/organisation/prs_web130705biographies)

Mae'r Bwrdd yn ymwybodol iawn o'r angen i wneud cyfarfodydd yn effeithiol pan allai'r agenda fod yn eang a'r cyfrifoldebau'n arwyddocaol. Gyda chymorth cynigion gweithredol clir, mae'r deg cyfarfod Bwrdd a gynhelir y flwyddyn yn rhedeg i amserlen effeithlon sy'n cael y cyfraniad gorau gan aelodau'r Bwrdd ar faterion o arwyddocâd strategol. Graddiwyd y Bwrdd gan werthusiadau mewnol ac allanol a gynhaliwyd yn ddiwedd yn un effeithiol a chadarnhaodd bod aelodau yn mwynhau bod yn rhan o Fwrdd Ofwat. Rydym am barhau i adeiladu ar y sylfaen gref o sgiliau amrywiol a chyfraniad, brwdfrydedd ac ymrwymiad.

Ochr yn ochr â'u cydweithwyr ar y Bwrdd, rôl gyffredinol yr aelodau yw:

- Cyfrannu at ddatblygiad strategaeth hirdymor Ofwat a'i strategaeth ar draws ystod eang o faterion rheoleiddio a marchnad;
- Cyfrannu at effeithiolrwydd Bwrdd yn Ofwat;
- Gwneud yn siŵr bod Ofwat yn sicrhau trefn lywodraethu effeithiol ar gyfer ei hun a'r sector y mae'n ei reoleiddio;
- Cyfrannu profiad o sectorau eraill heblaw am y sector dŵr a dŵr gwastraff;
- Darparu ffynhonnell adeiladol o her i'r Weithrediaeth.
- Ymuno ag un o bwyllgorau Archwilio, Pobl a/neu is-bwyllgorau Ofwat fel sy'n briodol;
- Bod yn egnïol, bwdfrydig ac wedi'ch ysgogi gan y cyfle i ddatblygu a gweithredu strategaethau Ofwat ar gyfer y dyfodol.

Mae Ofwat am benodi dau neu dri Chyfarwyddwr Anweithredol i ymuno â'r Bwrdd i olynu cydweithwyr hirsefydledig a fydd yn rhoi'r gorau iddi ar ddiwedd eu tymor. Mae Ofwat yn benodol yn chwilio am Gyfarwyddwyr Anweithredol a ddaw â phrofiad cryf a pherthnasol yn un o'r meysydd canlynol: hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, arwain busnesau seiliedig ar asedau sylweddol ac arwain trawsnewid busnes a newid diwylliant.

Ceir rhagor o wybodaeth am y meini prawf hanfodol ar dudalen 10.

---

# Meini Prawf Hanfodol

---

## Rhaid i ymgeiswyr allu dangos y cyfan o'r meini prawf hanfodol canlynol:

Mae Ofwat yn chwilio am unigolion sydd â'r uniondeb, sgiliau a'r farn sydd eu hangen i reoleiddio'r sector hollbwysig hwn. Rydym yn croesawu ceisiadau gan Gyfarwyddwyr Anweithredol am y tro cyntaf neu rai profiadol.

- Dylai bod gan ymgeiswyr broffil cryf ac enw da yn y maes y maent wedi ei ddewis, ymrwymiad i fod yn aelod o Fwrdd effeithiol, a'r gallu i fod yn aelod Bwrdd brwd ac ar gael mewn cyfarfodydd Bwrdd a rhwng cyfarfodydd;
- Bydd ganddynt sgiliau rhyngbersonol da, gyda'r gallu i ymgysylltu'n effeithiol â chydweithwyr ar y Bwrdd a'r weithrediaeth, cyfrannu at drafodaeth a herio'n adeiladol.
- Dylai unigolion allu prosesu data cymhleth a gallu edrych yn strategol ar faterion. Byddant yn cynorthwyo'r Bwrdd i sefydlu egwyddorion lefel uchel ac, fel aelod o Fwrdd bychan sy'n rheoleiddio sector mawr, bod yn barod i sefyll dros eu hegwyddorion.
- Mae'n rhaid i'r Bwrdd yn ei gyfarwydd allu gwneud penderfyniadau anodd ac amddiffyn y penderfyniadau hynny o dan bwysau: rydym yn chwilio am ymgeiswyr sy'n ymarferol, pendant ac sy'n defnyddio eu craffter busnes a phroffesiynol i ddeall effaith eu penderfyniadau.

Nod Ofwat yw cynnal Bwrdd gydag ystod eang o sgiliau a phrofiad sy'n cwmpasu arweinyddiaeth busnes, rheoli strwythur, negodi masnachol ar raddfa fawr, rheoleiddio economaidd a chystadleuaeth, deall am ddiogelu defnyddwyr, deall ystyriaethau polisi amgylcheddol, a chyllid corfforaethol.

Ar gyfer yr ymarferiad recriwtio hwn, rydym yn chwilio am Gyfarwyddwyr Anweithredol sydd â phrofiad yn un neu ragor o'r meysydd canlynol:

- Hyrwyddo buddiannau defnyddwyr yn cynnwys ar faterion megis fforddiadwyedd, gwasanaeth, bregusrwydd, anghenion cymdeithasol a deall llais defnyddwyr;
- Profiad gweithredol uwch o redeg busnes neu sefydliad mawr, cymhleth arall mewn amgylchedd allanol heriol: er enghraifft, gyda phrofiad o ddatblygu a chynnal effeithiolrwydd sefydliadol a newid diwylliant; her neu drawsnewidiad o bwys a/neu fusnes sydd â phwyslais cryf ar seilwaith/asedau; dealltwriaeth o rôl marchnadoedd cystadleuol;
- Dealltwriaeth gadarn o'r cefndir polisi yng Nghymru a'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Nghymru;

---

Ym mhob ymgeisydd rydym yn chwilio am y gallu a'r profiad sydd ei angen i ddal y sector i gyfrif, yn cynnwys y sgiliau canlynol:

- Gallu dadansoddol a deallusol rhagorol, gyda'r ddawn i ddadansoddi ac amgyffred gwybodaeth/cynigion polisi cymhleth yn gyflym.
- Tystiolaeth o feddwl strategol arloesol a hanes sy'n dangos parodrwydd i sefyll dros egwyddorion.
- Gallu llunio barn strategol gadarn, lle mae gwrthdaro buddiannau rhwng defnyddwyr, a gallu dadlau'n ystyrlon dros y safbwyntiau y daethpwyd iddynt, gan ddefnyddio dadansoddiad a barn reddfodol gadarn.

Mae'r Bwrdd angen ystod eang o brofiad gan ei Gyfarwyddwyr Anweithredol ac nid yw'n angenrheidiol (nac yn wir yn ddymunol) i bob aelod fod â phrofiad arbenigol ym mhob maes.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus gadw ar Egwyddorion Nolan ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus (yn atodedig yn [Atodiad A](#)) a'r [Cod Ymarfer ar gyfer aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus](#).

---

# Ymrwymiad amser a thymor y swydd

---

Gall cyfnod penodiad cyhoeddus amrywio ond bydd fel arfer rhwng dwy a phum mlynedd.

Bydd y Bwrdd fel arfer yn cyfarfod ddeg gwaith y flwyddyn yn Llundain neu Birmingham gyda mwy o gyfarfodydd yn ystod 12 mis olaf adolygiad prisiau bob pum mlynedd. Ein nod yw cynnal un cyfarfod Bwrdd y flwyddyn yng Nghymru.

Disgwylir i Gyfarwyddwyr Anweithredol gadeirio neu ymuno ag o leiaf un pwyllgor Bwrdd. Efallai y bydd Ofwat am benodi Cadeirydd newydd ar gyfer ei Bwyllgor Pobl drwy'r broses hon, a bydd yn disgwyl i'r person a benodir fod â chefnidir mewn trawsnewid busnes neu rôl arweinyddiaeth uwch lle mae wedi bod â chyfrifoldeb am effeithiolrwydd sefydliadol.

Yn unol â'r Cod Ymarfer am Benodiad Gweinidogaethol i Gyrrff Cyhoeddus, gall Gweinidogion ail-benodi neu ymestyn telerau penodeion cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd unrhyw ail-benodiad yn amodol ar asesiad perfformiad da gan Gadeirydd y Bwrdd a bydd yn ôl disgrisiwn Gweinidogion.

Gall y penodai ymddiswyddo drwy roi tri mis o rybudd ysgrifenedig i'r Gweinidog Gwladol. Gall y Gweinidog Gwladol derfynu'r penodiad o dan rai amgylchiadau, a hysbysir yr ymgeisydd llwyddiannus ynglŷn â'r rhain pan y'i penodir.

---

## Cydnabyddiaeth ariannol a threuliau

---

Y gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer Cyfarwyddwyr Anweithredol yw £19,190. Telir treuliau ar gyfer gwariant rhesymol ac angenrheidiol ar ran Ofwat ac yn unol â pholisi teithio a threuliau Ofwat o bryd i'w gilydd.

Mae'r ymrwymiad amser yn debyg i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer rôl Anweithredol busnes neu sefydliad o bwys: mae'r Bwrdd yn gwerthfawrogi cyfraniadau o werth uchel ond nod Ofwat hefyd yw osgoi bod baich gormodol ar ei Gyfarwyddwyr Anweithredol.



---

# Y Broses Benodi

---

Bydd y Panel Penodi yn cynnwys:

- Jonson Cox (Cadeirydd)
- Sally Randall (Defra)
- Eifiona Williams (Llywodraeth Cymru)
- Roger Witcomb (cyn Gadeirydd Ymchwiliadau, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd)

Caiff y ceisiadau eu sifftio wedi'r dyddiad cau. Yn y cyfarfod rhestr hir dewisir nifer o ymgeiswyr ar gyfer rownd gyntaf o gyfweiliadau gydag Odgers Berndtson (yr asiantaeth chwilio). Hysbysir y rhai sy'n aflwyddiannus ar y cam hwn yn ysgrifenedig.

Yna cynhelir cyfarfod rhestr fer lle dewisir rhestr o ymgeiswyr ar gyfer cyfweiliad ym mis Mawrth/Ebrill 2020. Cynhelir y cyfweiliadau yn Llundain. Yn dilyn cyfweiliad, bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr a ystyrir i fod yn rhai y gellir eu penodi i gyfarfod â'r Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol cyn y gwneir y penderfyniad terfynol ynglŷn â phenodiad.

Yn amodol ar y cymeradwyaethau gofynnol, bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau'n ffurfiol yn y swydd ym mis Mai 2020.

Mae'r dyddiadau hyn yn gywir pan ysgrifennwyd hwn ond gallant newid, a gall y broses glirio ar gyfer y penodiadau hyn gymryd yn hwy nag a ragwelir.

## Ymddygiad ac Uniondeb

Rhaid i ni sicrhau bod unrhyw unigolyn a benodir wedi ymrwymo i egwyddorion a gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus. Y Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus yw: Anhunanoldeb, Uniondeb, Gwrthrychedd, Atebolrwydd, Bod yn Agored, Gonestrwydd ac Arweinyddiaeth ac maent wedi'u nodi yn y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus a ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2019 ([yma](#)).

Bydd disgwyl i ymgeiswyr llwyddiannus gadw at Reolau Trefniadaeth Bwrdd Ofwat ([yma](#)):

Rhaid i ymgeiswyr ddatgelu ar y Ffurflen Gweithgarwch Gwleidyddol gysylltiadau personol a allai, pe byddent yn cael eu penodi, arwain at wrthdaro buddiannau neu ymddangos felly.

Os yw'n ymddangos, o'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen, y gallai gwrthdaro posibl fodoli, neu godi yn y dyfodol, caiff hyn ei archwilio'n llawn gyda'r ymgeisydd er mwyn canfod a yw'n ddigon arwyddocaol i atal yr unigolyn rhag cyflawni dyletswyddau'r swydd. Bydd y panel yn gwneud hyn yn y cam cyfweiliad. Yn Atodiad II ceir gwybodaeth am wrthdaro er mwyn cynorthwyo ymgeiswyr i werthuso a allai fod ganddynt wrthdaro posibl neu beidio.

---

## Treuliau cyfweiliad

Ar gyfer ymgeiswyr y mae angen iddynt deithio pellter sylweddol i fynychu cyfweiliad, ad-delir pris tocyn trên safonol o'r man y ceir mynediad i'r DU.

---

# Sut i ymgeisio a chyflwyno eich cais

---

Cynhelir y broses recriwtio gan Odgers Berndtson ar ran Ofwat a Defra. Os ydych yn dymuno gwneud cais am y swydd hon, a fydddech cystal â darparu'r canlynol:

- CV cynhwysfawr yn nodi hanes eich gyfra, ynghyd â chyfrifoldebau a chyflawniadau.
- Llythyr eglurhaol (dim mwy na dwy ochr) yn amlygu pa mor addas ydych chi ac yn dangos sut yr ydych yn bodloni'r fanyleb person. Rhowch sylw i'r meini prawf hanfodol a'r meysydd arbenigedd sydd eu hangen. Mae'r llythyr eglurhaol yn rhan bwysig o'ch cais ac fe'i defnyddir i'ch asesu cymaint â'ch CV.
- Ffurflen Monitro Amrywiaeth - Gofynnir i bob ymgeisydd hefyd lenwi Ffurflen Monitro Amrywiaeth wrth gyflwyno cais. Caiff eich Ffurflen Monitro Amrywiaeth ei chadw ar wahân i'ch cais ac ni fydd yn rhan o'r broses ddewis. Unwaith eich bod wedi cyflwyno eich cais anfonir neges e-bost a gynhyrchir yn awtomatig atoch yn gofyn i chi lenwi'r Ffurflen Monitro Amrywiaeth.
- Ffurflen Gwrthdaro Buddiannau, Ymddygiad a Gweithgarwch Gwleidyddol - Rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r Ffurflen Gwrthdaro Buddiannau, Ymddygiad a Gweithgarwch Gwleidyddol. Gellir cael hon drwy fynd i [www.odgers.com/73135](http://www.odgers.com/73135). Lawrlwythwch y ffurflen a'i dychwelyd at [anne.neill@odgersberndtson.com](mailto:anne.neill@odgersberndtson.com)

Y dull gwneud cais a ffafir yw ar-lein yn [www.odgers.com/73135](http://www.odgers.com/73135)

Os na allwch wneud cais ar-lein e-bostiwch eich cais i:

[73135@odgersberndtson.com](mailto:73135@odgersberndtson.com)

Dylid anfon unrhyw geisiadau post i:

Government Practice  
73135  
Odgers Berndtson  
20 Cannon Street  
London EC4M 6XD

Bydd pob un sy'n gwneud cais yn cael ymateb.

---

## Cysylltu

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl hon, cysylltwch ag Odgers Berndtson: Laura Spurgin ar +44 20 7529 1072 neu Simon McDonald ar +44 20 7529 6359.

Os bydd person sydd ag anabledd dan anfantais o gymharu â pherson sydd ddim yn anabl, mae dyletswydd arnom i wneud newidiadau rhesymol i'n prosesau lle bo hynny'n bosibl. Os ydych angen i newid gael ei wneud fel y gallwch wneud eich cais, cysylltwch ag Odgers Berndtson.

---

# Amserlen Recriwtio

---

Dyddiadau dangosol yw'r rhain a gallant newid. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr am y dyddiadau wrth iddynt gael eu cadarnhau.

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau	Canol Dydd, Dydd Gwener 21 Chwefror 2020
Cyfarfod rhestr hir (nid oes angen i'r ymgeiswyr fynychu)	Wythnos yn cychwyn 24 Chwefror 2020
Cyfweliadau rhagarweiniol gydag Odgers Berndtson	Wythnos yn cychwyn 2 Mawrth 2020 ac wythnos yn cychwyn 9 Mawrth 2020
Cyfarfod rhestr fer (nid oes angen i'r ymgeiswyr fynychu)	Wythnos yn cychwyn 16 Mawrth 2020
Cyfweliadau panel terfynol	Wythnos yn cychwyn 20 Ebrill 2020 ac wythnos yn cychwyn 27 Ebrill 2020

---

# Meini prawf anghymhwysra

---

Ni ellir eich ystyried ar gyfer penodiad cyhoeddus o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Os byddwch yn dod yn fethdalwr neu'n gwneud trefniant gyda chredydwr;
- Os yw eich ystâd wedi cael ei secwestro yn yr Alban neu eich bod yn cytuno i raglen trefnu dyledion o dan Ran 1 Deddf Trefnu ac Atafaelu Dyledion (Yr Alban) 2002 (dsa 17) fel y sawl sydd mewn dyled neu eich bod, o dan gyfraith yr Alban, wedi rhoi gweithred ymddiriedolaeth ar gyfer credydwr.
- Os ydych wedi eich gwahardd rhag gweithredu fel cyfarwyddwr cwmni o dan Ddeddf Gwahardd Cyfarwyddwyr Cwmni 1986;
- Os ydych wedi eich cael yn euog o drosedd a bod yr euogfarn heb ei disbyddu at ddibenion Deddf Adsefydlu Troseddwr 1974 (c. 53);
- Os ydych yn dod yn destun gorchymyn rhyddhau o ddyled neu orchymyn cyfyngu methdaliad;
- Os ydych yn peidio â datgan gwrthdaro buddiannau.

A fydech cystal â nodi bod Rheolau Trefniadaeth Bwrdd Ofwat yn rhoi manylion buddiannau a waherddir ac y dylai unrhyw ymgeisydd sydd â buddiannau o'r fath eu nodi ar y ffurflen gwrthdaro buddiannau.

---

# Gwrthdaro buddiannau a diwydrwydd dyladwy

---

Os oes gennych unrhyw fuddiannau a allai fod yn berthnasol i waith Ofwat ac a allai arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosol pe byddech yn cael eich penodi, rhowch fanylion yn eich cais. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn ac yr hoffech drafod ymhellach cysylltwch ag Odgers Berndtson yn y man cyntaf.

O gofio natur penodiadau cyhoeddus, mae'n bwysig bod y rhai a benodir yn aelodau o gyrff cyhoeddus yn cynnal hyder y Senedd a'r cyhoedd. Os oes unrhyw faterion yn eich hanes personol neu broffesiynol a allai, pe byddech yn cael eich penodi, gael eu camddehongli, achosi embaras, neu beri perygl i hyder y cyhoedd yn y penodiad, mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu dwyn i sylw'r Panel Asesu Cynghorol a'ch bod yn rhoi manylion y mater(ion) yn eich cais. Wrth ystyried a ydych yn dymuno datgan unrhyw faterion, dylech hefyd feddwl am unrhyw ddatganiadau cyhoeddus yr ydych wedi eu gwneud, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol.

Fel rhan o'n gwiriadau diwydrwydd dyladwy byddwn yn ystyried unrhyw beth yn y parth cyhoeddus sy'n gysylltiedig â'ch ymddygiad neu'ch gallu proffesiynol. Bydd hyn yn cynnwys ein bod yn cynnal chwiliadau o ddatganiadau cyhoeddus blaenorol a blogiau cyfryngau cymdeithasol neu unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael yn gyhoeddus. Efallai y rhoddir y wybodaeth hon ar gael i'r Panel Asesu Cynghorol ac efallai y bydd y panel am archwilio materion gyda chi pe byddech yn cael eich gwahodd am gyfweliad. Gall y wybodaeth hefyd gael ei rhannu gyda Gweinidogion a Swyddfa'r Cabinet.

---

# Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

---

Rheoleiddir y penodiad hwn gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus er mwyn sicrhau y caiff ei wneud ar sail teilyngdod yn dilyn cystadleuaeth deg ac agored. Mae rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a'r Cod Llywodraethu Penodiadau Cyhoeddus i'w gweld yn:

<http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/>

[https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/578498/governance\\_code\\_on\\_public\\_appointments\\_16\\_12\\_2016.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/578498/governance_code_on_public_appointments_16_12_2016.pdf)

I gael manylion llawn y broses gwyno ar gyfer penodiadau cyhoeddus, cliciwch ar y ddolen ganlynol a fydd yn mynd â chi i wefan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus:

<https://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk/regulating-appointments/complaints-and-investigations>



---

## Diogelu data

---

Mae Defra wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a diogelwch eich gwybodaeth bersonol ac mae'n gwneud hynny yn unol â chyfraith diogelu data yn cynnwys Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Defnyddir yr holl wybodaeth a ddarperir gennych i fynd rhagddo â'r penodiad cyhoeddus a restrir yn y pecyn gwybodaeth hwn ac yn achos gwybodaeth monitro amrywiaeth gall gael ei dienwi a'i defnyddio dim ond at ddibenion monitro. I gael rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn casglu ac yn dal eich gwybodaeth, darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd, y gellir ei gyrchu drwy wefan Swyddfa'r Cabinet (<https://publicappointments.cabinetoffice.gov.uk>) neu drwy wneud cais am gopi gan [publicappts@defra.gov.uk](mailto:publicappts@defra.gov.uk).

---

# Atodiad I: Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus

---

## Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu er budd y cyhoedd a hynny'n unig.

## Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw ymrwymiad i unigolion neu sefydliadau a allai geisio'n amhriodol ddylanwadu arnynt yn eu gwaith. Ni ddylent weithredu na gwneud penderfyniadau er mwyn cael budd ariannol neu fudd arall iddynt hwy, eu teulu na'u ffrindiau. Rhaid iddynt ddatgan a datrys unrhyw fuddiannau a pherthnasoedd.

## Gwrthrychedd

Rhaid i ddeiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau yn ddiuedd, yn deg ac ar sail teilyngdod, gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau a heb wahaniaethu na dangos rhagfarn.

## Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd i'r cyhoedd a rhaid iddynt dderbyn unrhyw graffu i sicrhau hyn.

## Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus weithredu a gwneud penderfyniadau mewn modd agored a thryloyw. Ni ddylid dal gwybodaeth rhag y cyhoedd oni bai bod rhesymau clir a chyfreithlon dros wneud hynny.

## Gonestrwydd

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod yn onest.

## Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus arddangos yr egwyddorion hyn trwy eu hymddygiad eu hunain. Dylent hyrwyddo a chefnogi'n gadarn yr egwyddorion a bod yn barod i herio ymddygiad gwael pan fydd yn digwydd.

---

# Atodiad II Gwrthdaro buddiannau

---

## Beth yw gwrthdaro buddiannau?

Mae penodiadau cyhoeddus yn gofyn am y safonau uchaf o onestrwydd, yn cynnwys didueddrwydd, uniondeb a gwrthrychedd ar gyfer stiwardiaeth arian cyhoeddus a goruchwyliaeth a rheolaeth pob gweithgaredd cysylltiedig. Golyga hyn y gallai unrhyw fudd preifat, gwirfoddol, elusennol neu wleidyddol, boed yn ariannol ei natur ai peidio, fod o bwys ac yn berthnasol i waith y corff dan sylw a dylid ei ddatgan. Bydd posibilrwydd bob amser y gall gwrthdaro buddiannau gwirioneddol neu ymddangosol godi. Mae'r ddau fath yn broblem, gan y gallai tybiaeth o wrthdaro, yn achlysurol, fod yr un mor niweidiol â bodolaeth gwrthdaro gwirioneddol. Mae'n bwysig felly eich bod yn ystyried eich amgylchiadau pan fyddwch yn gwneud cais am benodiad cyhoeddus ac yn nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl, boed yn wirioneddol neu'n ymddangosol. Os oes gennych amheuaeth a dylid datgan mater, dylech ei ddatgan.

Ni all aelod o Fwrdd Ofwat ddal, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, unrhyw ecwiti neu fudd ariannol arall yn, nac unrhyw gyflogaeth, swydd ymgynghoriaeth, swydd cyfarwyddwr neu gytundeb gyda chydabyddiaeth ariannol arall gydag unrhyw gwmnïau dŵr neu gwmnïau cysylltiedig, neu unrhyw ddarpar gwmni dŵr a'u cwmnïau cysylltiedig, neu unrhyw ddeiliad neu ddarpar ddeliad unrhyw drwydded a ddyroddwyd gan Ofwat, neu unrhyw rai sy'n gysylltiedig â chwmnïau o'r fath. Mae'r gwaharddiad o ran ecwiti neu fuddiannau ariannol eraill yn ymestyn i ŵr, gwraig, partner a phlant sy'n ddibynyddion i Aelod Bwrdd (gweler [Rheolau Trefniadaeth Bwrdd Ofwat](#)).

## Mae'n siŵr nad yw gwrthdaro ymddangosol yn broblem, cyn belled fy mod yn gweithredu'n ddiduedd bob amser?

Nid yw uniondeb yr unigolyn yn cael ei amau yma. Fodd bynnag, mae'n angenrheidiol ar gyfer statws yr unigolyn a'r Bwrdd bod gan aelodau o'r cyhoedd hyder yn eu hannibyniaeth a'u didueddrwydd. Gall hyd yn oed gwrthdaro buddiannau ymddangosol aelod Bwrdd fod yn niweidiol dros ben i enw da Ofwat ac felly mae'n hollbwysig bod y rhain yn cael eu datgan a'u harchwilio, yn yr un modd ag y byddai gwrthdaro gwirioneddol. Efallai nad yw'r ffaith bod aelod wedi gweithredu'n ddiduedd yn amddiffyniad yn erbyn cyhuddiadau o ragfarn posibl.

## Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n credu bod gen i fuddiannau sy'n gwrthdaro?

Dylech ystyried a datgan a oes gennych wrthdaro gwirioneddol, neu ymddangosol, ai peidio. Os nad ydych yn siŵr a yw eich amgylchiadau yn cyfateb i wrthdaro posibl, dylech gynnwys gwybodaeth berthnasol ar y Ffurflen Gwrthdaro Buddiannau er mwyn rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Panel Asesu Cynghorol.

---

## **Os ydw i'n datgan gwrthdaro buddiannau, a yw hynny'n golygu na fyddaf yn cael fy ystyried ar gyfer penodiad?**

Na - rhoddir ystyriaeth i bob achos yn unigol. Os cewch eich cynnwys ar restr fer ar gyfer cyfweliad, bydd y Panel yn archwilio gyda chi faint y gallai'r gwrthdaro effeithio ar eich gallu i gyfrannu'n effeithiol a diduedd ar y Bwrdd a sut y gellir trin hyn, pe byddech yn cael eich penodi. Er enghraifft, efallai y byddai'n bosibl i drefnu eich bod yn camu allan o gyfarfodydd pan drafodir mater y mae gennych fudd ynddo. Fodd bynnag os bydd y Panel yn credu, yn dilyn y drafodaeth gyda chi, bod y gwrthdaro yn rhy fawr ac y byddai'n codi amheuan am onestrwydd y Bwrdd neu'r penodiad, gallant dynnu eich cais yn ôl o'r broses ddewis.

## **Beth sy'n digwydd os na fyddaf yn datgan gwrthdaro y gwn amdano y bydd Ofwat yn ei ddarganfod wedi fy mhenodiad?**

Unwaith eto, byddai pob achos yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod, ond gallai Defra fod o'r farn eich bod, drwy guddio gwrthdaro buddiannau, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus (gweler [yma](#)) a gall derfynu eich penodiad.

## **Beth sy'n digwydd os nad ydw i'n sylweddoli bod gwrthdaro posibl yn bodoli?**

Gall sefyllfa godi lle nad yw'r ymgeisydd yn gyfarwydd â'r ystod eang o waith y mae Ofwat yn ei gwmpasu ac felly nid yw'n sylweddoli y gallai gwrthdaro buddiannau fodoli. Mewn rhai achosion, gall y Panel, gyda'i wybodaeth ehangach am Ofwat, benderfynu bod mater gwrthdaro posibl, yn seiliedig ar y wybodaeth am gyflogaeth neu brofiad a ddarparwyd gan yr ymgeisydd yn ei gais. Bydd wedyn yn archwilio hyn mewn cyfweliad gyda'r ymgeisydd.

## **Beth sy'n digwydd os bydd gwrthdaro buddiannau yn digwydd wedi i benodiad gael ei wneud?**

Gallai hyn ddigwydd am ddau reswm. Y cyntaf yw y gallai amgylchiadau aelod newid, er enghraifft gallai newid swydd ac wrth wneud hynny gallai gwrthdaro gyda'i waith ddod i'r amlwg. Yr ail yw lle bo aelod yn anghyfarwydd ag amrediad gwaith y corff, ond wedi'r penodiad daw'n amlwg bod gwrthdaro'n bodoli lle nad oedd un wedi ei ragweld yn ystod y broses benodi. Yn y ddau achos, dylid trafod y mater gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, er mwyn penderfynu a all yr aelod barhau neu beidio gyda'i rôl mewn modd priodol a rhoddir ystyriaeth o bob achos yn unigol. Efallai y byddai'r gwrthdaro yn ei gwneud hi'n anymarferol i'r aelod barhau ar y Bwrdd, pe byddai'n rhaid iddo ef neu hi dynnu allan o gyfran sylweddol o fusnes arferol y Bwrdd. Mewn achosion o'r fath efallai y gofynnir i'r aelod ymddiswyddo o'r Bwrdd.

---

## Meysydd lle gall gwrthdaro ddigwydd

Mae pum prif faes a allai arwain at wrthdaro busnes gwirioneddol neu ymddangosol. Y rhain yw:

- Buddiannau ariannol a buddiannau perthnasol eraill y tu allan i'r sefydliad;
- Perthynas gyda pharti/sefydliad arall a allai arwain at deyrngarwch yn cael ei rannu, neu ei bod yn ymddangos felly, er enghraifft budd ecwiti neu ariannol mewn cwmni dŵr;  
Gwybodaeth am Bolisi Llywodraeth sydd yn yr arfaeth a allai roi mantais bersonol annheg i bobl sydd â buddiannau busnes cysylltiedig - er enghraifft, mynediad at wybodaeth freintiedig;
- Ymddangos bod gwobrwyo am gyfraniadau neu ffafrau yn y gorffennol; neu
- Aelodaeth o rai cymdeithasu neu sefydliadau.

---

# Atodiad III – Aelodaeth bresennol y Bwrdd

---

## Bwrdd



**Jonson Cox**

Cadeirydd



**Rachel Fletcher**

Prif Weithredwr



**Mark Bayley**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Christine Farnish**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Martin Lawrence**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Aislin Munro**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Catherine Waddams**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Tim Waggott**

Cyfarwyddwr Anweithredol



**Aileen Armstrong**

Uwch Gyfarwyddwr  
Cyllid a Llywodraethu



**David Black**

Uwch Gyfarwyddwr Water 2020



**John Russell**

Uwch Gyfarwyddwr  
Strategaeth a Chynllunio